CYNGOR CYMUNED **TREF ALAW** **COMMUNITY COUNCIL**

Porfa Las
01407 730172 Llanddeusant trefalaw@gmail.com
07989 586677 LL65 4AD

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, 10 Ionawr 2017 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant

Yn bresennol Cadeirydd Ifan Rowlands, Glyn Hughes, Arthur Jones, Trefor Jones, Geraint Owen, Owain Owen, Iona Phillips, Hugh Williams, Cynghorydd Ken Hughes

Ymddiheuriadau Peredur Hughes, Ffion Roberts, John T Rowlands

1 **Cofnodion cyfarfod Rhagfyr 2016**

Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Rhagfyr 2016 gyda Hugh Williams yn cynnig a Owain Owen yn eilio.

2 Datgan diddordeb

Owain Owen – eitem 6

3 Materion â codwyd o cyfarfod Rhagfyr

3.1 Hysbysebu am Clerc newydd

Cytunwyd bu'r Clerc yn gwneud popeth bu angen ar gyfer paratoi disgrifiad swydd ayyb ar gyfer hysbysebu am rywun i gymryd ei lle. Penderfynu bu'n fwy dymunol i gael rhywun lleol os bu'n bosib.

3.2 Etholiad : sedd wag yn Llantrisant

Bu etholiad Cynghorau Cymuned a Thref yn ogystal â Chyngor Sir yn cymryd lle 4ydd Mai 2017 ac mae'n gyfle i lenwi'r sedd wag.

4 Budget 2017-18

Dosbarthwyd Budget ar gyfer 2017-18. Derbyniwyd y manylion fel y tablwyd gyda sylwi nifer o godiadau ar gyfer etholiad 2017, hysbysebu am Glerc ayyb.

5 CSYM: Archebion Cynghorau Cymuned 2017/18

Wrth dderbyn y codiad uchod yn y Budget, penderfynwyd bu rhaid codi precept Tref Alaw i £6,131 (codiad o £1331 dros 2016/17).

6 Tai Penygroes

Er bod y tai cyngor wedi cael ei thrin yn ddiweddar iawn, roedd cyflwr y stad yn flêr gyda cheir, tois a pheiriannau ar wasgar (gan gynnwys car ar frics yn y lon). Pryderon ynglŷn â phlant yn rhedeg i'r lon.

Penderfynwyd bu'r Clerc yn ysgrifennu at Adran Tai CSYM yn ogystal a Chynghorwyr Ken Hughes yn holi Adran Priffyrdd.

7 Gyrru yn Llanddeusant/lonydd gwledig

Pryderon ynglŷn â chyflymder ceir a pheiriannau yn gyrru trwy Landdeusant a'r ardal.

Clerc i holi'n bellach gydag Adran Priffyrdd.

8 CSYM: Panel Dweis Pwyllgor Safonau

Dim enwau i yrru ymlaen.

9 Un Llais: cyfarfod pwyllgor Môn – 19 Ionawr

Neb yn gallu mynd.

10 Materion eraill

Clerc i ysgrifennu at CSYM i adael iddynt wybod am siomedigaeth y Cynghorwyr ei bod yn gwerthu ffarm Henbont.

Post / E.bost

CSYM: Penderfyniadau cynllunio – y rhai sy'n dilyn wedi cael caniatâd

47C151	Tyn Ffordd, Elim
47C139A	Tir nesa i Awelfryn, Elim
47C121B	Tir ger Hen Blas, Llanddeusant